# Bwletin y Farchnad HCC

Mehefin 2022

**Effeithiwyd ar lifoedd masnach yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf wrth i'r pandemig achosi newidiadau yn y galw gan ddefnyddwyr, ac achosodd Brexit oblygiadau pellach o ran cludo. Yn ddiweddar, mae CThEM wedi cyhoeddi ffigurau masnach ar gyfer Ebrill 2022 sy'n dangos y patrymau a welwyd mewn cig coch, tra bod lefelau cynnyrchu ar y farchnad ddomestig wedi bod yn gymysg a phrisiau gât fferm wedi bod yn gadarn. Bydd Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych yn fanylach ar y patrymau masnach hyn.**

**Glesni Phillips – Dadansoddwr Data**

## CIG EIDION A CHIG LLO

Mae ffigurau gan CThEM wedi dangos bod nifer yr allforion cig eidion ffres ac wedi'i rewi wedi bod yn gryf o'u cymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach. Ym mis Ebrill, bu cynnydd o 53% ar y flwyddyn yng nghyfaint y cig eidion a **allforiwyd** o'r DU i gyfanswm o 10,800 tunnell. O edrych ar y flwyddyn hyd yma , mae cyfanswm cyfaint y cig eidion ffres ac wedi'i rewi sydd wedi cael ei gludo o'r DU yn sefyll bron yn 42,500 tunnell ar hyn o bryd. Mae hyn 57% yn uwch na 2021, gyda gwerth allforion cig eidion yn £169.1 miliwn – cynnydd o 93% ar y flwyddyn, wrth i werth pob tunnell godi 23% ar y flwyddyn yn dilyn prisiau uwch ar gât fferm y DU. Mae nifer yr allforion wedi tyfu er bod cynhyrchiant cig eidion yn ystod yr un cyfnod hwn wedi gostwng 2% o'i gymharu â'r cyfnod cyfatebol yn 2021, yn ôl ffigurau Defra.

Tra fod allforion wedi tyfu, cynyddodd **mewnforion** cig eidion ffres a chig eidion wedi'i rewi yn ystod mis Ebrill hefyd, gyda chyfanswm cyfeintiau yn 20,000 tunnell - sydd 10% yn fwy nag Ebrill 2021. Cyfanswm y cyfeintiau a fewnforiwyd hyd yn hyn eleni yw 78,000 tunnell, sydd 24% yn uwch na'r llynedd, wrth i gludo cig eidion Gwyddelig gynyddu cyfanswm y mewnforion. Roedd gwerth mewnforion cig eidion ffres ac wedi'u rhewi yn £391.6 miliwn (cynnydd o 48% ar y flwyddyn). Hefyd, cludwyd mwy o gig eidion yn dod o'r Almaen (4,000 tunnell ychwanegol) a'r Iseldiroedd (2,500 tunnell ychwanegol). Nid yw'r DU yn hunangynhaliol o ran cynhyrchu cig eidion, ac mae'n parhau i fod yn fewnforiwr net.

## CIG DEFAID


Yn ystod mis Ebrill yn unig, **allforiodd** y DU bron i 7,000 tunnell o gig defaid ffres ac wedi'i rewi - cynnydd o 33% o'i gymharu â'r lefelau flwyddyn ynghynt. Mae cyfeintiau cig defaid ffres ac wedi'u rhewi sy'n cael eu hallforio i fyny 24.5% ar yr un adeg blwyddyn diwethaf ar bron i 24,500 tunnell. Mae cynhyrchu mwy o ŵyn domestig, ynghyd â phrisiau ŵyn yn is na chenhedloedd cynhyrchu cig oen allweddol eraill, wedi arwain at allforion yn llawer uwch na'r lefelau blwyddyn ynghynt. Mae'r UE yn parhau i dderbyn tua 95% o'r cyfeintiau a allforiwyd o'r DU, fodd bynnag, cofnododd Ffrainc gynnydd o 20% flwyddyn ar flwyddyn gan fod rhai allforwyr bellach yn cludo cig oen drwy Ffrainc i wledydd eraill yr UE (ac felly nid yw'r holl gynnyrch o reidrwydd yn cael ei fwriadu ar gyfer marchnad Ffrainc). Ar hyn o bryd, mae gwerth allforion y DU 35% yn uwch na'r lefelau blwyddyn ynghynt, sef £159.7 miliwn.

Cynyddodd cyfeintiau cig defaid ffres ac wedi'i rewi a **mewnforiwyd** rhwng mis Ionawr ac Ebrill 19% ar y flwyddyn i gyfanswm o 22,300 tunnell. Er bod cyfeintiau mewnforio yn uwch o gymharu â 2021, mae'r lefelau hyd yn hyn 11% yn is na 2020 ac 16% yn is na 2019. Mae hyn yn awgrymu bod cyfeintiau mewnforio yn gwella yn dilyn llai o fewnforion yn 2021 (oherwydd anawsterau cludo a llai o gynhyrchu cig oen yn yr UE), ond yn parhau i fod yn is na'r cyfartaleddau hanesyddol. Mae Seland Newydd yn parhau i ddominyddu mewnforion i'r DU, ond mae'r gyfran sy'n dod o Awstralia yn cynyddu. Ar hyn o bryd, mae nifer yr allforion cig defaid yn gorbwyso'r mewnforion gan fod cynhyrchiant domestig yn cynyddu ar y flwyddyn, sy'n golygu bod cyflenwad uwch o gig oen ar gael i'w fasnachu.

## PORC

Cyfanswm **allforion** porc ffres ac wedi'i rewi yn ystod y blwyddyn i mis Ebrill oedd 69,000 tunnell, sy'n debyg i'r lefelau blwyddyn ynghynt (cynnydd o 2.5%), tra bod gwerth y cynnyrch a allforiwyd wedi gostwng 13.5% i sefyll ar £108.2 miliwn. Mae llwythi i Tsieina yn parhau i ddominyddu, fodd bynnag, roedd y cyfeintiau i lawr bron i 40% (neu 14,000 tunnell) ar y flwyddyn. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod y fuches foch Tsieineaidd yn gwella'n gyflym, ac felly mae llai o ddibyniaeth ar broteinau a fewnforir.

Cynyddodd cyfanswm y **mewnforion** porc ffres ac wedi'i rewi yn ystod YTD 27% o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2021, sef 120,000 tunnell. Cyfrannodd Ffrainc, yr Almaen a'r Iseldiroedd i gyd at y cynnydd cyffredinol mewn cyfaint, ond fe wnaeth 11,600 tunnell ychwanegol a dderbyniwyd o Sbaen yrru'r cynnydd cyffredinol.



## GWARTHEG

### Prisiau – wythnos yn gorffen 25 Mehefin

Y pris cyfartalog am wartheg dethol mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru a Lloegr oedd **246.6c/kg**. Roedd hyn:

- +2.3c ar yr wythnos flaenorol,
- +25.8c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 50.1c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2017-21: 196.4c/kg).


Y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **440.7c/kg**. Roedd hyn:

- -0.4c ar yr wythnos flaenorol,
- +49.0c uwchlaw lefelau blwyddyn yn gynharach.


Roedd y pris pwysau marw ar gyfer heffrod yn 438.7c/kg (-1.7c ar yr wythnos), teirw ifanc ar 436.5c/kg (+0.5c), a gwartheg difa ar 363.0c/kg (+1.1c).

### Trwybwn – Mawrth 2022

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 239,500 pen – cynnydd o 9% ar y flwyddyn
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 179,700 pen – i fyny 8% ar y flwyddyn.
  - ➢ *bustych -7%, heffrod +11%, a theirw ifanc +3%.*
- Cyfartaledd pwysau carcasau gwartheg dethol = 345.0kg (-1.6kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 52,700 pen - cynnydd o 5% ar y flwyddyn.




Cynhyrchiant Cig Eidion a Chig Llo y DU
Mai '22
79,100 tunnell
**+7% b-a-f**



## DEFAID

### Prisiau – wythnos yn gorffen 25 Mehefin

Pwysau byw cyfartalog Ŵyn Tymor Newydd SQQ mewn marchnadoedd yng Nghymru oedd **303.6c/kg**. Roedd hyn:

- -1.7c ar yr wythnos flaenorol,
- +64.6c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 86.5c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2017-21: 217.1c/kg).


Prisiau mamogiaid difa cyfartalog mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru oedd **£90.50/pen**. Roedd hyn:

- -£5.50 ar yr wythnos flaenorol,
- +£11.40 uwchlaw lefelau blwyddyn yn gynharach.


Roedd pris ŵyn pwysau marw ym Mhrydain Fawr yn 646.7c/kg (-15.9c ar yr wythnos).

### Trwybwn – Mai 2022

- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 1.0 miliwn pen – cynnydd o 11% ar y flwyddyn.
- Trwybwn ŵyn = 924,100 pen – cynnydd o 11% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas ŵyn cyfartalog = 20.4kg (+0.4kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn mamogiaid a hyrddod difa = 82,600 pen – cynnydd o 5% ar y flwyddyn.




Cynhyrchiant cig defaid y DU
Mai '22
21,300 tunnell
**+12% b-a-f**



## MOCH

### Prisiau – wythnos yn gorffen 18 Mehefin


Roedd Pris Mochyn Cyfan Manyleb yr UE (APP) ym Mhrydain Fawr yn **191.6c/kg**. Roedd hyn:

- +2.5c ar yr wythnos flaenorol,
- +31.0c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- Bron i 32c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2017-21: 159.8c/kg).

Mae adroddiadau diwydiant yn awgrymu, er bod prisiau gât fferm wedi gwella yn ystod yr wythnosau diwethaf, nid yw'n ddigon i dalu amcangyfrif o'r gost cynhyrchu ar hyn o bryd.

### Trwybwn – Mai 2022

- Cyfanswm y trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 979,100 pen – cynnydd o 1% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 957,000 pen – cynnydd o 5% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas moch heb fagu cyfartalog = 89.3kg (+2.7kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn hwch a baedd = 22,100 pen – cynnydd o 9% ar y flwyddyn.




Cynhyrchiant Porc y DU
Mai '22
88,600 tunnell
**+8% b-a-f**

